

WcVA

CgGC

Gwneud mwy o wahaniaeth gyda'n gilydd

Adroddiad blynyddol 2018/19

0300 111 0124

www.wcva.cymru

Croeso

Helo a chroeso i'n Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2018/19.

YN CGGC CAWN EIN HARWAIN GAN EIN PWRPAS SEF GALLUOGI MUDIADAU GWIRFODDOL YNG NGHYMRU I WNEUD MWY O WAHANIAETH GYDA'N GILYDD.

Bob dydd rydym yn clywed am yr heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu mudiadau gwirfoddol. Yr ansicrwydd a'r pryder sy'n bod mewn cymunedau a chymdeithas, a'r angen i'n lleisiau gael eu clywed. Gwaith arbennig gwirfoddolwyr a phwysigrwydd cynyddu amrywiaeth. Her hollbresennol denu adnoddau.

Er mwyn i fudiadau gwirfoddol fynd i'r afael â'r heriau o'u cwmpas, gwyddem fod angen iddynt ddod at ei gilydd, trefnu ac edrych ymlaen i baratoi at y dyfodol.

A dyma ble y gallwn ni fod o gymorth. Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at y gwahaniaethau mwyaf a wnaethom yn 2018/19 i rymuso sector gwirfoddol arbennig Cymru.

Eleni **dosbarthon ni £11.5m mewn grantiau a benthyciadau**, gan gynorthwyo i feithrin cyllid cynaliadwy a chryfhau mudiadau gwirfoddol.

Tynnon ni sylw at rai o'r unigolion ysbrydoledig sy'n gweithio yn ein sector drwy **'Ni yw'r Newid', ein harddangosfa ffotograffiaeth genedlaethol**. Dangosodd yr arddangosfa werth anferthol mudiadau gwirfoddol yng Nghymru.

Trwy ein prosiect ar y cyd â Phrifysgol Caerdydd, **Fforwm Cymdeithas Sifil Cymru ar Brexit**, sicrhawyd bod llais y sector yn cael ei glywed ym mhroses Brexit. Dim ond un o'r ffyrdd yr ydym yn cysylltu mudiadau gwirfoddol â'r sector cyhoeddus a byd busnes yw'r fforwm fel y gallwn ni gyd wneud mwy o wahaniaeth gyda'n gilydd.

Mawr obeithiwn y byddwch yn mwynhau darllen am ein straeon a'r gwaith y mae ein haelodau yn ei wneud i newid bywydau bob dydd.



RUTH MARKS MBE
Prif Weithredwr



PETER DAVIES CBE
Cadeirydd

CGGC ydym ni

CGGC yw'r corff aelodaeth cenedlaethol i fudiadau gwirfoddol yng Nghymru.

Ein pwrpas

Galluogi mudiadau gwirfoddol yng Nghymru i wneud mwy o wahaniaeth gyda'n gilydd.

Yn CGGC rydym yn gweithio gyda mudiadau gwirfoddol ac ar eu cyfer. P'un ai ydych yn gweithio i elusen, grŵp cymunedol neu fenter gymdeithasol, rydym yn bodoli i bobl sy'n dod at ei gilydd o'u gwirfodd, nid i wneud arian nac am fod y gyfraith yn dweud bod rhaid iddynt, ond am eu bod eisiau gwneud gwahaniaeth.

Rydym yn defnyddio grym cyfunol ein haelodau, wedi ein hysgogi gan y dyhead a rannwn i wella bywydau

pobl, i alluogi mudiadau gwirfoddol yng Nghymru i wneud mwy o wahaniaeth gyda'n gilydd.

Mae gan CGGC weledigaeth i fudiadau gwirfoddol a gwirfoddoli ffynnu ledled Cymru gan wella llesiant i bawb. Gwyddem na allwn wireddu'r weledigaeth hon ar ein pen ein hunain a dyna pam rydym yn cydweithio â'n haelodau a'n partneriaid.

Rhwydwaith o gefnogaeth

Rydym yn falch o fod yn rhan o Cefnogi Trydydd Sector Cymru, y rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector yng Nghymru. Partneriaeth genedlaethol yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru ac ynddi'r Cyngorau Gwirfoddol Sirol lleol a CGGC.

Wrth gydweithio, gallwn wneud mwy o wahaniaeth tuag at y canlyniadau yr hoffem eu cyflawni ledled Cymru. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar lywodraethu da, dylanwadu ac ymgysylltu, gwirfoddoli a sicrhau sector cynaliadwy.




Ein hamcan

Mae mudiadau gwirfoddol a gwirfoddoli yn gryfach ac yn fwy cadarn

Er mwyn i fudiadau gwirfoddol wneud y gwahaniaeth mwyaf posib, mae angen iddynt fod yn gryf eu hunain. Rydym yn benderfynol o gefnogi'r sector i ffynnu o fewn y newidiadau a'r ansicrwydd sydd o'n cwmpas heddiw.

Beth a wnaethom - Cyllid cynaliadwy

GRANTIAU A BENTHYCIADAU A DDOSBARTHWYD I'R SECTOR £11.5 MILIWN



Rydym yn awyddus i sicrhau bod gan fudiadau gwirfoddol ffrydiau cyllido amrywiol fel y gall eu gwaith pwysig barhau. Eleni dosbarthon ni £11.5m mewn grantiau a benthyciadau i helpu i gryfhau mudiadau gwirfoddol a'u gwneud yn fwy parod at y dyfodol.



Y gwahaniaeth a wnaethom

Astudiaeth achos: Datblygu canolbwynt bywiog i'r gymuned

MAE CYLLID GAN CGGC WEDI CYNORTHWYO KATE I HELPU RHAGOR O BOBL YN EI CHYMUNED.

'Daethom yn aelod o CGGC sawl blwyddyn yn ôl – diolch i wybodaeth, cyngor, hyfforddiant a chyllid ganddynt rydym wedi llwyddo i ddatblygu canolbwynt bywiog i'r gymuned,' meddai Kate O'Sullivan, Rheolwr Cymdeithas Gymunedol Gilfach Goch.

Mae Gilfach Goch wrth wraidd y gymuned, gan gynnig ystod eang o weithgareddau cymdeithasol, a thrwy gyllid gan CGGC, raglenni cyflogadwyedd i helpu pobl fel Lee.

Mae gan Lee syndrom Fibromyalgia, a all ei gwneud yn anodd dod o hyd i gyflogaeth barhaol. Ond gyda chymorth un o swyddogion ymgysylltu Gilfach Goch, a ariannwyd drwy Gronfa

Cynhwysiant Gweithredol CGGC, llwyddodd Lee i adeiladu ar ei frwdfrydedd dros dorri gwallt – ac yntau eisoes wedi gwneud cwrs yn y coleg – ac agor ei siop barbwr ei hun yn y ganolfan gymunedol.

'Mae gweithio gyda CGGC yn ein galluogi i barhau i weithio,' meddai Kate. 'Ac mae gwybod ein bod yn gwneud shwd gymaint o wahaniaeth positif ym mywydau shwd gymaint o bobl yn rhoi'r nerth i ni, fel mudiad gwirfoddol, i ddal ati gyda'n gwaith'

Mae Cronfa Cynhwysiant Gweithredol CGGC yn defnyddio arian Ewropeaidd i drechu tldi ac allgáu cymdeithasol.

Mike Dupree o CGGC yn ymweld â Kate O'Sullivan yng Nghymdeithas Gymunedol Gilfach Goch

Beth a wnaethom i gryfhau mudiadau gwirfoddol yn 2018/19

- 1** Lansio dau grant newydd sbon gan Lywodraeth Cymru i gefnogi prosiectau amgylcheddol a phrosiectau sy'n gweithio rhwng Cymru ac Affrica
- 2** Cynnal rhwydweithiau gyda phartneriaid lleol i gysylltu'r sector ar lawr gwlad, a thrwy Cefnogi Trydydd Sector Cymru datblygu dau lwyfan digidol newydd ar gyfer cyllid a gwirfoddoli
- 3** Creu casgliad eang o adnoddau i arwain mudiadau gwirfoddol drwy'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) newydd
- 4** Cynnal rhaglen ddysgu, wedi'i dylunio i ateb anghenion y sector yng Nghymru a rhoi'r sgiliau angenrheidiol iddynt lwyddo



Dywedodd 96% o gyfranogwyr fod ein cyrsiau hyfforddi yn dda neu'n rhagorol. Dywedodd un ohonynt: 'Dwi wedi bod ar sawl un o gyrsiau hyfforddi CgGC, pob un yn ddefnyddiol ac am bris rhesymol iawn.'



Ein hamcan

Mudiadau gwirfoddol a gwirfoddoli yn cael eu gwerthfawrogi'n fwy a rhoddir mwy o ffydd ynddynt

Gwyddem nad yw pobl bob amser yn sylweddoli'r gwerth enfawr y mae mudiadau gwirfoddol yn ei gyfrannu at gymunedau ledled Cymru. Hoffem adrodd y stori hon.

Beth a wnaethom – Tynnu sylw at bobl sy'n newid bywydau

Astudiaeth achos: Portread o gymwynaswyr Cymru

**DANGOSON NI I'R BYD RAI O'R BOBL
ARBENNIG SY'N GWNEUD GWAHANIAETH
YNG NGHYMURU.**

Lansiwyd ein harddangosfa luniau 'Ni yw'r
Newid' yn gofod3 ar 21 Mawrth 2019 gan
arddangos dim ond 11 o'n 900 o aelodau.

Gyda'i gilydd, mae'r lluniau hyn yn cynrychioli
staff a gwirfoddolwyr mewn mudiadau
gwirfoddol ar hyd a lled Cymru.

Tynnwyd y lluniau gan Warren
Orchard, ffotograffydd sydd wedi
ennill gwobr Bafta Cymru a gweithio
i gwmnïau fel Netflix, Channel 4,
Universal ac Warner Brothers.

Arddangosfa luniau 'Ni yw'r newid' yn gwneud ei hymddangosiad
cyntaf yn ein digwyddiad, gofod3, yn Stadiwm Dinas Caerdydd



Y gwahaniaeth a wnaethom

MAE'R LLUNIAU WEDI'U RHANNU YN Y CYFRYNGAU CENEDLAETHOL A LLEOL, A DANGOSODD Y WASG DDIDDORDEB ARBENNIG YN DAFYDD PETT, SY'N 16 MLWYDD OED AC YN AELOD O GYMDEITHAS GWENYNWYR CYMRU.

'Mae sawl cwsmer newydd wedi dod atom ar ôl gweld fy hanes yn y wasg,' meddai Dafydd, 'ac mae cylchgronau gwenyna rhyngwladol wedi cysylltu â ni ar ôl gweld ein stori arlein.'

'Nid yn unig y mae Dafydd wedi codi proffil ein mudiad a gwenyna yng Nghymru,' meddai John Bowles, Cadeirydd Cymdeithas Gwenynwyr Cymru, 'ond mae'r arddangosfa hefyd wedi cynyddu ein gobeithion o allu parhau i dalu i wenywyr ifanc fel Dafydd fynychu digwyddiadau rhyngwladol ac ehangu eu dealltwriaeth.'

'Mae cael ein cynnwys mewn arddangosfa genedlaethol wedi codi proffil gwirfoddoli yn Hope Rescue,' meddai Amy Greenfield, Rheolwr Codi Arian yng nghartref cŵn Hope Rescue.

Dafydd Pett, yr aelod ieuengaf o Gymdeithas Gwenynwyr Pen-y-bont a'r Cyffiniau

Mae Hope Rescue wedi bod yn achub bywydau cŵn crwydr a chŵn dieisiau ers 2005

Mae'r arddangosfa wedi helpu ein gwirfoddolwyr i ddeall mwy am yr effaith gymdeithasol y gall gwirfoddoli ei chael ledled Cymru.



'Ni yw'r newid'



Roy Fyles
Banc Bwyd Ynys Môn
Gwirfoddolwr



Adrian Bradley
Antur Stiniog
Swyddog Datblygu
Beicio Mynydd



Dafydd Pett
Cymdeithas Gwenynwyr
Pen-y-bont a'r Cyffiniau
Aelod



Suzanne Duval
Diverse Cymru
Rheolwr Iechyd Meddwl BME



Helal Uddin
EYST (Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig)
Uwch Gydllynydd Gwasanaeth
Ymgyfarwyddo Abertawe, Caerfyrddin
a Phowys



Salli Edwards
Cyngor Ar Bopeth Sir y Fflint
Prif Weithredwr

'Ni yw'r newid'



Lois Bolton, Alison Jakob ac Angela Morris, gyda Connie sy'n deirblwydd oed Hope Rescue Gwirfoddolwyr



Len Richards
Llyfrau Llafar Cymru
Gwirfoddolwr



Victoria Pedicini
Threshold DAS
Prif Weithredwr



Tirion Jenkins
Amser i Newid Cymru
Swyddog Ymgysylltu Digidol



Laura Grindey
Tŷ Hafan
Cydlynnydd Codi Arian

**Gallwch ddarllen straeon
yr unigolion rhagorol hyn
i gyd ar
www.wcva.cymru**

Beth a wnaethom i gynyddu ffydd yn y sector yn 2018/19

- 1** Defnyddio ein Porth Data i greu darlun mwy cyflawn o waith y sector yng Nghymru a gyda chymorth ffigyrau newydd amlygodd ein Cyfarwyddwr Strategaeth a Datblygu'r Sector, Anna Nicholl, bryderon yn y cyfryngau ynghylch incwm elusennau Cymru o'i gymharu â gweddill y Deyrnas Unedig
- 2** Cynnal y digwyddiad blynyddol gofod3 am y trydydd tro, sy'n gyfle i fudiadau gwirfoddol Cymru gysylltu, dysgu a dangos eu gwerth
- 3** Amlygodd ein Gwobrau Gwirfoddolwr y Flwyddyn Cymru werth y sector drwy ddathlu rhai o wirfoddolwyr mwyaf ysbrydoledig Cymru
- 4** Cynnal partneriaeth Ennyn Effaith yng Nghymru i helpu mudiadau gwirfoddol i fesur a dangos eu heffaith
- 5** Aeth ein hymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol yn yr Eisteddfod Genedlaethol ati i annog pobl i drafod pam maent yn #CaruElusennau
- 6** Trefnu Sioeau Arddangos Gwirfoddolwyr Ifanc yn Wrecsam a Chaerdydd i ddangos cymaint y mae pobl ifanc yn gwirfoddoli ac yn rhan o weithredu cymdeithasol ac effaith hyn ar fywydau pobl ifanc yng Nghymru

Roedd 63 o arddangoswyr a 52 o ddigwyddiadau ymlaen drwy'r dydd yn gofod3, gan ddod â 576 o bobl at ei gilydd i gyd-ddysgu, ysbrydoli ei gilydd a rhannu eu straeon



Digwyddiad a oedd wedi'i drefnu'n arbennig o dda gan gynnig sawl syniad ymarferol. Yr union beth sydd ei angen ar elusennau yn y rhanbarth i gynorthwyo eu gwaith bob dydd.'
– Dywedodd 95% fod gofod3 yn dda neu'n rhagorol

Ein hamcan

Mudiadau gwirfoddol a gwirfoddoli yn cael mwy o effaith ar lesiant yn awr ac yn y dyfodol

Rydym yn benderfynol o helpu mudiadau gwirfoddol i wella llesiant Cymru o ddifrif, gan adeiladu ar y gwahaniaeth maent eisoes yn ei wneud. I wneud hyn rydym yn canolbwyntio ar sut y gall y sector helpu i rymuso cymunedau, canfod atebion, ac ymgysylltu â'r llywodraeth, byd busnes a'r sector cyhoeddus.

Beth a wnaethom - Codi llais mudiadau gwirfoddol ym mhroses Brexit

Paratoi at Brexit

**MAE EIN FFORWM BREXIT YN HELPU MUDIADAU GWIRFODDOL I YMWNEUD
Â PHROSES BREXIT A PHARATOI AT Y DYFODOL.**



Cydlynwyd y Fforwm Charles Whitmore gyda'r Gwir Anrh Mark Drakeford AC a Phrif Weithredwr CCGC Ruth Marks yn un o gyfarfodydd y fforwm

Mae gan fudiadau gwirfoddol ran allweddol i'w chwarae yn y ffordd y bydd Brexit yn effeithio ar y bobl fwyaf agored i niwed yng nghymdeithas, sef y rheini maent yn eu cefnogi. Mae Fforwm Cymdeithas Sifil Cymru ar

Brexit wedi bod yn helpu'r mudiadau hyn i ddeall Brexit ac ymwneud â'r broses, gan ddod ag arbenigwyr a'r sector at ei gilydd i ysgogi dadlau a thrafod, a datblygu safbwyntiau i gydweithredu arnynt.

Ym mis Hydref 2018 cyflwynwyd 'Canfyddiadau Fforwm Brexit' i Lywodraeth Cymru i bwysleisio rhai gwerthoedd allweddol y teimlai'r sector y dylai proses Brexit eu parchu. Roedd y rhain yn cynnwys materion ynglŷn â hawliau dynol a chydaddoldeb, mewnfudo a dinasyddion yr UE, a'r amgylchedd a lles anifeiliaid.

Ymatebodd Llywodraeth Cymru drwy ddweud y byddai'r canfyddiadau o gymorth i sicrhau bod buddiannau'r sector yn cael eu clywed yn ei thrafodaethau â Llywodraeth y DU.

Yn ogystal cynhaliodd y Fforwm gyfarfod briffio ynglŷn â Brexit rhwng trydydd sector Cymru ac ASau yn Llundain ym mis Ionawr 2019 ar y cyd â chwaer-brosiect sydd ar waith ledled y DU. Roedd yn gyfle i Rwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru, Cyswllt Amgylchedd Cymru, Sefydliad Bevan ac aelodau o'r Fforwm i draddodi cyfres o gyflwyniadau yn tynnu sylw ASau at rai o brif bryderon a dyheadau'r sector ynghylch Brexit.

Prosiect ar y cyd rhwng Canolfan Llywodraethiant Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd a CCGC yw Fforwm Cymdeithas Sifil Cymru ar Brexit, a ariennir gan y Legal Education Foundation.

Y gwahaniaeth a wnaethom

**MAE AELODAU O GABINET
LLYWODRAETH CYMRU WEDI CROESAWU
GWAITH Y FFORWM, GAN GYNNWYS
FEL MECANWAITH DEFNYDDIOL I
LYWIO EI THRAFODAETHAU Â
LLYWODRAETH Y DU.**

Mae Llywodraeth Cymru wedi hyrwyddo canllaw'r Fforwm, Paratoi at Brexit, ar ei gwefan Paratoi Cymru.

Mae gwaith y Fforwm wedi rhoi'r cyfle i leisiau mudiadau gwirfoddol gael eu clywed yn y cyfryngau yng Nghymru, gan gynnwys ar y teledu a'r radio yn genedlaethol, yn ogystal â gwasg y fasnach. Mae gwaith CGGC ar Brexit wedi'i ddyfynnu'n rheolaidd yn y cyfarfod llawn a thrafodaethau pwyllgorau yn y Senedd. Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn argymhellion gan bwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol sy'n adlewyrchu safbwyntiau CGGC mewn perthynas â Brexit.

gofod3 yn rhoi cyfle i fudiadau gwirfoddol gwrdd â Gweinidogion Cymru. Jane Hutt AC (yn y canol) yn ymuno â Chadeirydd CGGC Peter Davies a Julia Unwin ar banel trafod a'r Gwir Anrh Mark Drakeford AC yn cwrdd â llysgennad #byddaf Cymru Naomi Lea, ynghyd â'n Prif Weithredwr Ruth Marks



Astudiaeth achos: 'Nos Fercher yw'r un noson dwi'n cysgu'n dda'

MAE PROSIECT CGGC, CHWARAEON BME CYMRU, WEDI HELPU HEATHER I ROI GWÊN AR WYNEB CEISWYR LLOCHES BENYWAIDD.

Tîm pêl-rwyd yw Splott Superstars yn ardal y Sblot yng Nghaerdydd yn arbennig i ffoaduriaid benywaidd. Sefydlwyd y tîm gan y gwirfoddolwyr lleol Heather Lewis a Vicky Sutton. Aethom am sgwrs â Heather i drafod sefydlu'r Superstars.



BETH WNAETH EICH YSGOGI I SEFYDLU'R TÎM?

Pan symudais i ardal newydd yng Nghaerdydd fe ddes i adnabod criw o bobl wahanol yn y gymuned, ac am wn i fe ddes i'n llawer mwy ymwybodol o bobl sy'n ceisio statws i fyw yma, fel ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Fe ddes i adnabod dipyn o ferched a oedd yn astudio'n galed ond nad oeddent yn gwneud rhyw lawer o ymarfer corff.



Cyn pen dim roedden ni wedi cofrestru â Chymdeithas Bêl-rwyd Cymru, roedden ni'n ymgeisio am gyllid gan eich prosiect ardderchog, Chwaraeon BME Cymru, ac roedden ni wedi dechrau clwb pêl-rwyd i ferched a menywod a oedd yn geiswyr lloches ac yn ffoaduriaid yng Nghaerdydd.



Heather gyda Rajma Begum o CGGC, Swyddog Prosiect Chwaraeon BME Cymru

BETH MAE'R CYFRANOGWYR YN EI GAEL O'R CLWB?

Mae un o'r merched yma wedi dod o Syria, wedi i'w theulu a hithau ffoi rhag pethau ofnadwy a doedd hi ddim yn cysgu'n dda o gwbl. Rai wythnosau ar ôl dechrau chwarae pêl-rwyd, dywedodd hi wrtha'i 'nos Fercher yw'r un noson dwi'n cysgu'n dda, achos dwi wedi cael hwyl gyda ffrindiau ac mae fy nghorff yn teimlo fel ei fod wedi cael ymarfer, dwi'n mynd gartre', a dwi'n gallu cysgu.'

Yn aml pan dwi'n gweld llawer o'r menywod yma oddi ar y cwrt mae yna dristwch gweladwy yn eu calonnau gan fod yr hyn maen nhw wedi bod drwyddo, ac yn mynd drwyddo, yn ofnadwy. Ac eto wrth chwarae pêl-rwyd maent yn chwerthin, cael hwyl, tynnu coes, yr holl bethau dwi'n eu gweld yn fy nhîm pêl-rwyd, gan eu bod wrth eu boddau'n chwarae pêl-rwyd. Os unrhyw un, y merched yma sydd angen hyn.

YM MHA FFORDD Y BU PROSIECT CGGC, CHWARAEON BME CYMRU O GYMORTH?

Roedd angen arian arnon ni i ddechrau hyn oll, ni fydden ni byth fod wedi gallu gwneud hyn yn broffesiynol (nac yn gyfreithlon!) heb y cyllid gan Chwaraeon BME Cymru. Diolch i'r cyllid roedd modd i mi ennill cymhwyster hyfforddi lefel 2, a gynyddodd ein gallu i redeg clwb.

Roedd gennym wirfoddolwr ar leoliad o Chwaraeon BME Caerdydd ac fe helpodd y cyllid i ni dalu iddi hithau ennill cymhwyster hyfforddi i roi hwb pellach i'n gallu. Nid yn unig y mae ei hyder wedi saethu i fyny o ganlyniad, ond mae hi hefyd wedi dechrau dod â'i nith gyda hi sydd hefyd wrth ei bodd â phêl-rwyd!

Nod Chwaraeon BME Cymru yw mynd ati mewn ffordd gynaliadwy i gynyddu cyfranogiad BME mewn chwaraeon ledled Cymru, ariennir y prosiect gan Chwaraeon Cymru.


Mae Cwpan Cymunedol Bae'r Gorrlewin, a gynhelir ar y cyd â Heddlu De Cymru, Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig Cymru (EYST) a phrosiect Chwaraeon BME Cymru CGGC, yn dod ag ystod amrywiol o chwaraewyr ac aelodau o'r gymuned at ei gilydd



Beth a wnaethom i gefnogi'r sector i wella llesiant yn 2018/19

- 1** Cododd ein tîm Buddsoddi yn Natur Cymru ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- 2** Hwylusodd CGGC gyfarfodydd Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector a Chyfarfodydd Gweinidogol unigol i ddod â'r sector a'r llywodraeth ynghyd a chryfhau dylanwad a llais mudiadau gwirfoddol
- 3** Dyfarnodd Llywodraeth Cymru, Nesta, Prifysgol Caerdydd a CGGC £45,000 mewn cyllid Arloesi i Arbed i'r trydydd sector i archwilio syniadau newydd sydd â'r potensial i wella gwasanaethau cyhoeddus
- 4** Helpodd ein prosiect Chwaraeon BME Cymru i gynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon ac ymarfer corff mewn cymunedau BME yng Nghymru. Gweithiodd y prosiect gyda 3000 o bobl, gan ragori ar ei dargedau gwreiddiol o bron i ddwbl
- 5** Cafodd ein gwaith ei grybwyll 42 o weithiau yn y cyfarfod llawn a sesiynau pwyllgorau yn y Cynulliad Cenedlaethol

Y farchnadfa fywiog yn gofod3, y lle perffaith i danio sgwrs â chydweithwyr yn y sector neu i gael paned!



Mae cymorth CGGC i ymwneud â maes polisi cyhoeddus yn amhrisiadwy.

Ein hamcan

Mae CGGC yn fwy cynaliadwy a chyfrifol

Rydym wedi ymrwmo i weithio mewn ffordd sy'n gyfrifol yn amgylcheddol, yn ddiwylliannol, yn economaidd ac yn gymdeithasol.

Astudiaeth achos: Mae CGGC yn Elusen Ddibynadwy

Roeddem yn falch o sicrhau'r Marc Elusen Ddibynadwy.

Achrediad a gydnabyddir yn genedlaethol yw'r Marc Elusen Ddibynadwy sy'n brawf o ansawdd a hygredd elusennau. Mae'r Marc Elusen Ddibynadwy yn cydnabod bod CGGC yn cynnig gwasanaethau o safon i'n haelodau a'r trydydd sector ehangach. Mae'n ein gwneud yn fwy effeithiol, gan ein helpu i greu arbedion effeithlonrwydd, ysgogi staff a datblygu cysondeb rhwng ein safleoedd a'n gwasanaethau i gyd.

Dan arweiniad Sara Sellek, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gweithrediadau a

Marchnata CGGC – a'n Hyrwyddwr Marc Elusen Ddibynadwy – sefydlwyd cynllun i weithredu'r Marc Elusen Ddibynadwy, gan gynnwys creu gweithgor ac enwebu Arweinwyr Ansawdd ar gyfer pob rhan o CGGC o gyllid i bolisi i Adnoddau Dynol. Dros sawl mis aethom ati i gasglu tystiolaeth ar holl weithgareddau CGGC, gan ddangos ein hansawdd a'n dibynadwyedd ym mhopeth a wnawn, a datblygu cynllun gweithredu i wella'r mudiad. Cafwyd ymweliad asesu gan aseswyr y Marc Elusen Ddibynadwy ac yna dyfarnwyd y Marc.



Dywedd Sara: 'Rydym wrth ein boddau o sicrhau'r asesiad annibynnol allanol hwn sy'n cydnabod gwaith ein staff ymroddedig i gefnogi ein haelodau a'r trydydd sector. Mae'r broses hon wedi cynorthwyo CGGC i ymwreiddio ansawdd a rhannu arfer da yn y mudiad drwyddo draw ond hefyd wedi ein cryfhau i gefnogi eraill i ymgeisio am y Marc yn ogystal.'

Ymddiriedolwyr balch a'r Prif Weithredwr Ruth Marks yn dathlu ein Marc Elusen Ddibynadwy newydd yng nghyfarfod y bwrdd ym mis Chwefror

Beth a wnaethom i fod yn fwy cynaliadwy a chyfrifol yn 2018/19

- 1** Gwirfoddolodd ein staff mewn gweithgareddau amrywiol, o fod yn ymatebydd cyntaf i fynd â chŵn am dro a gwirfoddoli mewn lloches nos. Mae CGGC yn cefnogi staff i wirfoddoli drwy eu hannog i ddefnyddio ein polisi Gwirfoddoli a Gefnogir gan y Cyflogwr
- 2** Llwyddo i gadw ein Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd 2 a lleihau ein defnydd o drydan 6.77%
- 3** Cyflwyno gweithgareddau er lles ein staff megis ioga a chymryd rhan yn yr ymgyrch amgylcheddol 30 Diwrnod Gwyllt yn hel sbwriel, yn tyfu bwyd a mwy
- 4** Parhau i ymrwymo i fod yn Gyllidwr Cefnogi Cyflog Byw drwy ariannu swyddi sy'n cynnig cyflogau yn unol â'r Cyflog Byw neu uwch yn unig
- 5** Cefnogi Addewid Cyflogwr Amser i Newid, sy'n golygu bod CGGC wedi ymrwymo i hyrwyddo llesiant yn y mudiad drwyddo draw

Negeseuon o gariad dros elusennau Cymru ar ein mur #CaruElusennau yn yr Eisteddfod Genedlaethol

EGES I ELUSENNAU YN
SSAGE FOR CHARITIE



Ein hamcan

**Mae CGGC yn
gwneud defnydd
gwell o adnoddau
mwy amrywiol**

Byddwn yn amrywio sail ein cyllid, yn defnyddio technoleg ddigidol yn well, ac yn hyrwyddo diwylliant o wella'n barhaus a chydweithio ag eraill.

Astudiaeth achos: Cydweithio er mwyn y Gymraeg

Roedd Mentrau Iaith yn un o'r llu o fudiadau y cydweithion ni â nhw mewn meysydd o ddiddordeb cyffredin.

DYMA IWAN HYWEL, ARWEINYDD TÎM YM MENTRAU IAITH CYMRU YN EGLURO:

'Cydnabyddodd Mentrau Iaith Cymru a CgGC yr angen am berthynas weithio agosach gan gydweithio ar hyfforddiant, digwyddiadau ac, yn bwysicaf, annog mwy o bobl i wirfoddoli yn Gymraeg a sicrhau bod cymorth addas ar gael i wirfoddolwyr a'r mudiadau sy'n cynnig y cyfle iddyn nhw wirfoddoli.

'Fe wnaethon ni gynnal digwyddiad 'Gwirfoddoli yn Gymraeg' ar y cyd yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd gyda Chomisiynydd y Gymraeg, a chydweithio ar ddigwyddiadau hyfforddi ynglŷn â GDPR. Wrth edrych tua'r dyfodol, bydd y Mentrau Iaith yn defnyddio llwyfan gwirfoddoli CgGC i hysbysebu cyfleoedd ac rydym yn awyddus i atgyfnerthu ein cysylltiadau drwy gydweithio eto ar ddigwyddiadau hyfforddi.'



Iwan o'r Mentrau Iaith yn ymweld â'n stondin yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd

Beth a wnaethom i wneud defnydd gwell o adnoddau mwy amrywiol yn 2018/19

- 1** Cydlansio dau lwyfan digidol newydd, Gwirfoddoli Cymru – sy'n cynnig ffordd newydd o ddarganfod a hysbysebu cyfleoedd gwirfoddoli – a Cyllido Cymru, gwefan newydd i chwilio am gyfleoedd am grantiau a benthyciadau
- 2** Cymerodd ein staff ran mewn sesiwn gan The Alliance For Useful Evidence ar bwysigrwydd defnyddio tystiolaeth wrth ysgrifennu adroddiadau a cheisiadau am gyllid
- 3** Fel rhan o rwydwaith Cefnogi Trydydd Sector Cymru, lansiodd ein system newydd ar gyfer Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid, sy'n cofnodi pob cysylltiad yr ydym yn ei gael â mudiadau'r sector ac yn ein helpu i sicrhau ein bod yn cael yr effaith yr hoffem ei chael

Geoff Jukes yn casglu gwobr grŵp ar ran Cynllun Cerdded Diogel Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn ein Gwobrau Gwirfoddolwr y Flwyddyn Cymru 2018



Gwrandu ar adborth

ELENI COMISIYNON NI GRŴP FFOCWS ANNIBYNNOL A CHYFWELIADAU DROS Y FFÔN Â RHANDEILIAID I FESUR CYNNYDD TUAG AT YR AMCANION A OSODWYD YN EIN CYNLLUN PUM MLYNEDD.

Rydym yn falch o weld y cynnydd yr ydym yn ei wneud. Cyn bwysiced, mae hyn wedi'n helpu i ddysgu sut y gallwn wella.

Beth ddywedoch chi am ein gwaith

Gwerthfawrogir ein gwaith yn hwyluso cyfarfodydd uniongyrchol rhwng mudiadau gwirfoddol a Gweinidogion a swyddogion. Mae mudiadau sy'n cymryd rhan yn cael eu bod yn ffordd dda o 'atgyfnerthu' eu gweithgareddau dylanwadu eu hunain. Galwodd cyfranogwyr yn ogystal ar i CGGC chwarae mwy o rôl eirioli ac arwain, yn enwedig y tu allan i'r sector, gan hyrwyddo gwerth y trydydd sector i Gymru.

Amlygodd yr ymchwil ansawdd a chryfder ein

hadnoddau, yn enwedig ar wirfoddoli. Canfu hefyd fod ar fudiadau eisiau i CGGC sicrhau bod ei wasanaethau yn ategu gwaith y mudiadau yr ydym yn eu cefnogi.

Yn CGGC rydym yn atebol i'n haelodau ac wedi ymrwymo i fod yn fudiad agored a chynhwysol. Mae hyn yn golygu gwrandu, dathlu beth sy'n gweithio, a newid beth sydd ddim. Byddwn yn gweithio'n galed yn sgil yr ymchwil hon i adeiladu ar ein cryfderau a gwella ein gwendidau.



Prosiect Young, Migrant and Welsh yn cael cydnabyddiaeth haeddiannol yng Ngwobrau Gwirfoddolwr y Flwyddyn Cymru 2018 a drefnwyd gan CGGC



Anna Nicholl, Cyfarwyddwr Strategaeth a Datblygu'r Sector, yn siarad ag ITV Wales ynglŷn ag effaith GDPR ar fudiadau gwirfoddol


Ein cyllid

Mae'r graffiau hyn yn rhoi trosolwg cryno o'n perfformiad ariannol yn 2018/19.

YN YSTOD Y FLWYDDYN DOSBARTHON NI **£11.5M** MEWN GRANTIAU A BENTHYCIADAU I'R TRYDYDD SECTOR. **£16.4M** OEDD EIN HINCWM AC **£16.6M** OEDD EIN GWARIANT.

INCWM


£16.4 MILIWN



- Incwm cyfyngedig
- Incwm digyfyngiad

INCWM CYFYNGEDIG


£14 MILIWN



- Grantiau derbyniadwy
- Incwm o fuddsoddiadau
- Gweithgareddau masnachu eraill


INCWM DIGYFYNGIAD

£2.4 MILIWN



- Incwm arall
- Gwariant wedi'i adennill
- Gweithgareddau masnachu eraill
- Grantiau derbyniadwy
- Incwm o fuddsoddiadau

GWARIANT
£16.6 MILIWN



- Grantiau i'r sector
- Costau staff (e.e. cyflogau, recriwtio, hyfforddi)
- Gorbenion (e.e. costau adeiladu, cyfarpar, cyfleustodau)
- Costau eraill (e.e. archwiliad, ymgynghorwyr, marchnata)

MAE EIN CYFRIFON BLYNYDDOL LLAWN AC ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL AR Y CYFRIFON HYNNY AR GAEL AR WEFAN Y COMISIWN ELUSENNAU.

Ehangu teulu CGGC

RYDYM YN GWEITHREDU FEL RHAN O GRŴP EHANGACH O GWMNIAU. O FEWN GRŴP CGGC CEIR CGGC A BUDDSODDIAD CYMDEITHASOL CYMRU, Y BUDDSODDWR CYMDEITHASOL MWYAF BLAENLLAW MEWN MENTRAU CYMDEITHASOL A'R TRYDYDD SECTOR EHANGACH YNG NGHYMRU.

Eleni roeddem wrth ein boddau o groesawu aelod arall i'r grŵp. Cynnal Cymru yw'r mudiad arweiniol ar gyfer Datblygu Cynaliadwy yng Nghymru.

Cenhadaeth Cynnal yw gwneud Cymru'n gymdeithas iach, cyfiawn a llewyrchus sy'n garbon isel ac yn defnyddio adnoddau'n effeithlon, gan ffynnu mewn cydbwysedd â'r ecosystemau naturiol sy'n ei chynnal. Bydd y bartneriaeth gyffrous hon yn galluogi CGGC a Cynnal Cymru i gefnogi ein gilydd, ein haelodau a'n partneriaid i gyd-ddylunio a chyd-ddarparu atebion arloesol i helpu i greu Cymru fwy cynaliadwy.

Aelodau o fwrdd CGGC

Llywydd

Michael Sheen OBE

Is-lywyddion

Tom Jones OBE

Margaret Thorne CBE DL

Cadeirydd

Peter Davies CBE

Is-gadeirydd

Fran Targett OBE

(o 14 Rhagfyr 2018, ymddiriedolwr yn flaenorol)

Catriona Williams OBE

(ymddiswyddodd 22 Tachwedd 2018)

Trysorydd

Jonathan Evans (o 1 Hydref 2018)

C Mair Gwynant (tan 30 Medi 2018)

Dirprwy Drysorydd

C Mair Gwynant

(o 1 Hydref 2018. Ymddiswyddodd 1 Mawrth 2019)

Jonathan Evans

(tan 30 Medi 2018)

Ymddiriedolwyr

Cherrie Bija (Ymddiswyddodd 22 Tachwedd 2018)

Rocio Cifuentes (Penodwyd 22 Tachwedd 2018)

Lindsay Cordery-Bruce

Elizabeth Girling (Penodwyd 22 Tachwedd 2018)

Simon Harris

Chris Lines (Penodwyd 24 Mai 2018)

Mark Llewellyn

Sara Moseley (Penodwyd 22 Tachwedd 2018)

L Mair Stephens (Ymddiswyddodd 22 Tachwedd 2018)

Joseph Stockley (Penodwyd 22 Tachwedd 2018)

Edward Watts (Penodwyd 22 Tachwedd 2018)

Helen White (Penodwyd 22 Tachwedd 2018)

Richard Williams

Kate Young (Penodwyd 22 Tachwedd 2018)

Pauline Young MBE (Ymddiswyddodd 22 Tachwedd 2018)

Ysgrifennydd

Tracey Lewis

Rhif cofrestru'r cwmni

425299

Rhif yr elusen

218093

Swyddfa gofrestredig

Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart

Caerdydd, CF10 5FH

Bancwyr

Barclays Bank Plc

Blwch Post 674, Heol y Frenhines

Caerdydd, CF10 2XU

Cyngorwyr cyfreithiol

Crowley & Co

10 - 16 Vere Street, Y Rhath

Caerdydd, CF24 3DS

Geldards LLP,

Tŷ Dumfries, Plas Dumfries

Caerdydd, CF10 3NF

Hugh James

Dau Sgwâr Canolog,

Caerdydd CF10 1FS

Archwilydd

Grant Thornton UK LLP

Cyfrifwyr Siartredig

Archwilwyr Cofrestredig

11-13 Heol Penhill, Caerdydd, CF11 9UP

Diolch

HOFFAI CCGC DDIOLCH I'N HOLL AELODAU A PHARTNERIAID AM EU CEFNOGAETH YN OGYSTAL Â'R MUDIADAU CANLYNOL:

- ACEVO
- Cymdeithas y Cadeiryddion
- Big Issue Cymru
- Cardiff City Conference and Events
- Prifysgol Caerdydd
- Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr
- Charity Times
- designdough
- Dimension 8
- Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig (EYST)
- Cwmni Cyfreithiol Geldards
- Cwmni Cyfreithiol Hugh James
- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)
- Keegan & Pennykid
- The Legal Education Foundation
- Sefydliad Lloyds Bank
- Yr Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd (MALD)
- Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol
- Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol
- New Philanthropy Capital (NPC)
- Newport Live
- Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWREN)
- Race Equality First (REF)
- Rockadove Video Production
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Chwaraeon Cymru
- Gemau Stryd
- Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
- Llywodraeth Cymru

Cyhoeddwyd Tachwedd 2019
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Rhif cofrestru'r elusen 218093
Cwmni cyfyngedig drwy warant 425299
Cofrestrwyd yng Nghymru